

## Casglu ystadegau presenoldeb a nodweddion personol oddi wrth ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen

Rydym yn casglu ystod eang o ddata amdanoch yn flynyddol, ac eglurir hyn yn fanylach yn yr [hysbysiad preifatrwydd hwn](#).

Oherwydd y pandemig Covid-19 ac ysgolion yn gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio, mae angen i ni allu casglu data presenoldeb yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Bydd casglu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein cefnogi ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar bresenoldeb a sut y gallwn gefnogi ysgolion.

### Pa mor aml ydyn ni'n casglu'r data hwn?

Byddwn yn cadw amllder y casglu dan adolygiad rheolaidd. I ddechrau, bydd y data'n cael ei gasglu bob wythnos ond efallai y bydd angen i ni gasglu'r data yn fwy aml.

### Pa ddisgyblion ydym ni'n casglu data amdanynt?

Rydym yn casglu data am bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir o fis Medi 2020 ymlaen.

### Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch bob wythnos:

- Rhif unigryw'r disgybl (UPN)
- Enw cyntaf
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhywedd
- Dyddiad geni
- Cod post cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod yr wythnos honno

### Pam ydym ni'n casglu'r wybodaeth hon?

Mae angen yr wybodaeth hon fel rhan allweddol o'n hymateb a chynllunio yn ystod y pandemig Covid-19 parhaol. Bydd y data'n cael ei gasglu'n rheolaidd i sicrhau bod y data diweddaraf ar gael i lywio ein hymateb. Byddwn yn defnyddio'r data at

ddibenion ystadegol a gwaith ymchwil yn unig ac ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn eich cylch yn defnyddio'r data hyn.

#### Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon?

Byddwn yn defnyddio'r data yn yr un ffyrdd ag yr ydym wedi'u rhestru yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#)

#### A fyddwn ni'n rhannu'r data?

Mae'n bosib byddwn yn rhannu'r data gyda'r sefydliadau yr ydym wedi'u rhestru yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#)

#### Pa mor hir y byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch?

Byddwn yn cadw'r data sy'n ei gwneud yn bosibl eich adnabod chi hyd nes y byddwch yn 25 oed.

#### Beth yw'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn?

Mae adran 538 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud unrhyw adroddiadau a ffurflenni, a rhoi unrhyw wybodaeth, i Weinidogion Cymru y bydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg.

#### Eich hawliau o dan y GDPR

Esbonnir eich hawliau yn llawn yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#).